# SL(6)570 – Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016.

Mae adran 80(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu disgrifiad ychwanegol o weithwyr gofal cymdeithasol y mae rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr mewn cysylltiad â hwy, sef y rhai sydd wedi eu cyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) neu sydd wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth preswyl ysgol arbennig.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar dudalen 1 o'r Memorandwm Esboniadol, yn natganiad y Gweinidog, mae sillafiad enw'r Gweinidog, a'i theitl Gweinidogol, yn anghywir yn y fersiwn Saesneg. Dywedir y gwneir y datganiad gan "Down Bowden MS Minister for Social Care". Ein dealltwriaeth ni yw y dylai hyn ddarllen "Dawn Bowden MS Minister for Children and Social Care". Mae'r Rheoliadau eu hunain yn cynnwys y teitl Gweinidogol cywir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.